**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2006 Rhif (Cy. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992 ("Rheoliadau 1992") fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"), Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002") a Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") yn rhagnodi cynllun ar gyfer talu gan ymgymerwyr am arolygiadau o'u gwaith gan awdurdodau strydoedd. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau 1992, Rheoliadau 2001, Rheoliadau 2002 a Rheoliadau 2004 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru ac yn ailddeddfu'r Rheoliadau hynny i roi effaith i'r newidiadau a ganlyn:

(a) Diffinnir "uned arolygu am dâl" bellach, yn syml, fel arolygu ar hap lai na 10 y cant a dim mwy na 10.5 y cant o bob cyfnod o'r gwaith, a dim mwy na 30 y cant o gyfanswm nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy mewn unrhyw flwyddyn: rheoliad 3(2).

(b) Ailddiffinnir "uned arolygu", yn achos clystyrau o ddim mwy na 5 o ddarnau a gloddir (neu ddim mwy na 10 pan fo'r gwaith yn ymwneud â phibellau neu linellau cyswllt) fel y bo dau ofyniad, sef bod yr holl ddarnau a gloddir yn yr un stryd, a'u bod yn rhan o'r un gwaith, yn cael eu rhoi yn lle gofyniad blaenorol bod pob darn a gloddir yn yr achosion hyn yn ddarostyngedig i un hysbysiad o ddyddiad cychwyn: rheoliad 3(3).

(c) Yn lle'r pum "Cyfnod gwaith" a geir yn Rheoliadau 1992 ceir bellach dri: rheoliad 3(4).

(ch) Yn lle “niferoedd amcangyfrifedig yr unedau arolygu” ceir “nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy”, sef nifer cyfartalog yr unedau arolygu ar gyfer yr ymgymerydd hwnnw yn ystod y tair blynedd flaenorol: rheoliad 3(5). Mae rheoliadau 3(6) a (7) yn darparu bod ymgymerwyr newydd i amcangyfrif nifer yr unedau arolygu y maent yn arfaethu eu cynhyrchu yn y tair blynedd gyntaf.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif (Cy. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2006* |
| *Yn dod i rym* | *2 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 75 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991([1]) ac sydd bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru([2]), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 2 Hydref 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "blwyddyn" (*"year"*) yw blwyddyn sy'n cychwyn ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth;

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gwaith" (*"works"*) yw gwaith stryd sy'n cynnwys cloddio neu adfer unrhyw ran o stryd;

mae i "pibell gyswllt" a "llinell gyswllt" yr ystyr sydd i "service pipe" a "service line" ym mharagraff 7(3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf;

---

(1) 1991 p.22. Nid yw'r diwygiad a wneir i adran 75 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 gan adran 58(2) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 wedi'i ddwyn i rym eto.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ystyr “ymgymerydd statudol” (“*statutory undertaker*”) yw ymgymerydd sy'n gwneud gwaith stryd yn rhinwedd hawl statudol.

**Ffioedd Arolygu**

**3.**—(1) Rhaid i ymgymerydd dalu i'r awdurdod strydoedd ffi o £21 am bob tro y caiff gwaith ei arolygu am dâl gan yr awdurdod strydoedd.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, yn ddarostyngedig i baragraff (6) isod, arolygu gwaith am dâl yw arolygu ar hap ddim llai na 10 y cant a dim mwy na 10.5 y cant o bob un o gyfnodau'r gwaith, a dim mwy na 30 y cant o gyfanswm nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy mewn unrhyw flwyddyn.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, dyma beth yw uned arolygu:

(a) un darn a gloddir nad yw'n hirach na 200 metr o hyd; neu

(b) mwy nag un darn a gloddir ond nid mwy na 5 ac, yn achos gwaith sy'n ymwneud â phibellau cyswllt a llinellau cyswllt, dim mwy na 10 darn a gloddir, ar yr amod ym mhob achos–

(i) bod pob darn a gloddir yn yr un stryd,

(ii) bod pob darn a gloddir yn rhan o'r un gwaith,

(iii) bod pob darn a gloddir yn cael ei gloddio o fewn cyfnod o 10 o ddiwrnodau gwaith,

(iv) bod pob darn a gloddir o fewn 500 metr i bob darn arall a gloddir; a

(v) nad yw hyd cyfan yr holl ddarnau a gloddir yn fwy na 200 metr gyda’i gilydd; neu

(c) yn achos cloddio darn sy'n fwy na 200 metr o hyd, pob darn a gloddir o 200 metr o hyd o fewn y darn hwnnw a gloddir neu falans y cyfryw ddarn.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, dyma'r cyfnodau gwaith:–

(a) y cyfnod y bydd y gwaith yn cael ei wneud, yn gorffen ar y diwrnod y cwblheir y gwaith adfer dros dro neu’n barhaol;

(b) y cyfnod o chwe mis yn cychwyn ar y diwrnod y cwblheir y gwaith adfer dros dro neu’n barhaol; ac

(c) y cyfnod o dri mis yn union cyn diwedd –

(i) yn achos cloddio'n ddyfnach nag 1.5 metr o fesur i dop yr offer a hynny dros ddarn o 5 metr neu fwy, 3 blynedd o ddyddiad gorffen y gwaith adfer parhaol,

(ii) mewn unrhyw achos arall, 2 flynedd o ddyddiad gorffen y gwaith adfer parhaol.

(5) At ddibenion y rheoliad hwn, ac eithrio fel y darperir ym mharagraff (6) isod, nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy mewn blwyddyn yw cyfartaledd nifer yr unedau arolygu ar gyfer yr ymgymerydd fesul blwyddyn wedi'i gyfrifo dros y tair blynedd sy'n dod yn syth o flaen y flwyddyn honno.

(6) Pan na fydd ymgymerydd eisoes wedi gwneud unrhyw waith stryd ar strydoedd y mae'r awdurdod sy'n cyflawni'r arolygiadau'n awdurdod strydoedd drostynt, nifer yr unedau arolygu cyfrifadwy ym mhob un o'r tair blynedd gyntaf yw nifer amcangyfrifedig yr unedau arolygu ar gyfer yr ymgymerydd yn y flwyddyn honno.

(7) At ddibenion gwneud yr amcangyfrif y cyfeirir ato ym mharagraff (6), rhaid i'r ymgymerydd, cyn cyflawni unrhyw waith mewn strydoedd y mae'r awdurdod sy'n cyflawni'r arolygiadau'n awdurdod strydoedd drostynt, ddarparu ar gyfer yr awdurdod strydoedd amcangyfrif o nifer yr unedau arolygu y mae'n arfaethu eu cynhyrchu y flwyddyn honno.

(8) Pan fydd ymgymerydd yn methu darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd o fewn y cyfnod o amser y cyfeirir ato ym mharagraff (7) uchod, rhaid i'r awdurdod strydoedd gyflawni cymaint o arolygiadau ag y bydd yr awdurdod strydoedd o'r farn eu bod yn briodol a chodi ar yr ymgymerydd hwnnw ffi o £21 amdanynt, hyd oni fydd yr ymgymerydd yn darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd, ac ar yr adeg honno bydd darpariaethau paragraff (9) isod yn gymwys.

(9) Unwaith y bydd yr ymgymerydd y cyfeirir ato ym mharagraff (8) uchod wedi darparu amcangyfrif ar gyfer yr awdurdod strydoedd, bydd y darpariaethau ym mharagraff (6) uchod yn gymwys, a bernir y bydd y tair blynedd gyntaf, y cyfeirir atynt ym mharagraff (6) yn cychwyn ar y dyddiad y daw'r amcangyfrif i law'r awdurdod strydoedd.

### Dirymiadau

**4.**—(1) Dirymir Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) 1992([1]) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Dirymir y Rheoliadau canlynol:

(a) Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001([2]).

(b) Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2002([3]).

---

(1) O.S. 1992/1688. Cafodd y Rheoliadau hyn eu dirymu o ran Lloegr gan O.S. 2002/2092.
(2) O.S. 2001/2681 (Cy.222).
(3) O.S. 2002/3181 (Cy.297).

(c) Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2004([1])

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(**1)** o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998([2])

Dyddiad
*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

([1]) O.S. 2004/1809 (Cy.196).
([2]) 1998 p.38.